



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Bwlchygroes  
Neuadd Bwlchygroes  
Bwlchygroes  
Sir Benfro  
SA35 0DP**

**Dyddiad yr arolygiad: 21 Tachwedd 2011**

**gan**

**Dorothy Morris**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
<b>Rhagorol</b>	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
<b>Da</b>	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
<b>Digonol</b>	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
<b>Anfoddhaol</b>	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau  
Estyn  
Llys Angor  
Heol Keen  
Caerdydd  
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:  
[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrau Ei Mawrhydi 2011: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Cylch Meithrin Bwlchgyroes yn 1974 ac mae wedi'i leoli yn neuadd y pentref. Mae'r plant sy'n mynychu'r lleoliad yn byw yn y pentref a'r ardaloedd cyfagos. Bernir nad yw'r ardal yn ffyniannus nag ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol.

Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant dwy a hanner i bedair oed am bedwar sesiwn yr wythnos yn ystod tymor ysgol. Mae ar agor rhwng 9.00 a 11.30 y bore. Yn ystod yr arolygiad, yr oedd naw plentyn tair oed ar y gofrestr. Saesneg yw iaith y cartref i'r rhan fwyaf o'r plant. Mae un plentyn ar hyn o bryd o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae'r lleoliad yn derbyn plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae trefniadau cefnogi addas yn eu lle.

Mae tri aelod o staff. Mae'r lleoliad yng ngofal y prif ymarferydd ac mae yna un ymarferydd arall llawn amser. Maent yn meddu ar gymwysterau priodol ym maes addysg a gofal plant bach. Cyflogir aelod o staff ychwanegol i gynorthwyo gydag un plentyn. Cafodd y lleoliad ei harolygiad diwethaf gan Estyn ym Mehefin, 2006 a chan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn Ebrill, 2009.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol y lleoliad</b>	<b>Digonol</b>
<b>Rhagolygon gwella'r lleoliad</b>	<b>Digonol</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol y darparwr yn ddigonol oherwydd:

- mae'r plant yn hapus ac yn mwynhau'r profiadau dysgu a ddarperir;
- mae'r ethos cynhwysol yn creu awyrgylch gynnes a chynhaliol i'r holl blant;
- er hyn, nid yw'r cynllunio cwricwlaidd yn ddigon cadarn i sicrhau datblygiad cyson ym medrau dysgu'r plant;
- mae trefn esmwyth i rediad dyddiol y lleoliad, ond annatblygedig yw gweithdrefnau arfarnu a chynllunio gwelliannau;
- mae trefniadau rheoli staff, gan gynnwys adnabod anghenion hyfforddiant, yn fwy anffurfiol eu natur.

## Rhagolygon gwella

Mae gan y lleoliad ragolygon gwella digonol oherwydd:

- mae'r ymarferwyr yn weithgar a chydwybodol;
- mae'r rhieni'n gefnogol;
- er hyn, nid yw'r strwythurau newydd ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm wedi'u sefydlu'n ddigonol;
- mae'r gweithdrefnau newydd ar gyfer asesu cynnydd plant yng nghyfnod cynnar eu datblygiad;
- nid oes strwythurau digon cadarn ar gyfer arfarnu a rheoli'r ddarpariaeth.

## Argymhellion

Er mwyn datblygu, mae angen i'r lleoliad:

- A1 wella medrau cyfathrebu Cymraeg y plant ac ymestyn eu medrau rhif;
- A2 gryfhau cynllunio'r cwricwlwm i sicrhau cydbwysedd ar draws y meysydd dysgu ac i ddatblygu medrau'r plant yn gyson;
- A3 ddatblygu'r gweithdrefnau i asesu cynnydd a datblygiad y plant;
- A4 ddatblygu dulliau hunan arfarnu a rheoli'r ddarpariaeth, a ffurfioli rôl y pwyllgor rheoli ymhellach;
- A5 chwilio am gyfleoedd addas i'r ymarferwyr dderbyn hyfforddiant a datblygiad proffesiynol pellach.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Digonol**

## Safonau: Digonol

Mae cyflawniad y plant pan fyddant yn dechrau yn y lleoliad yn eang a gwnânt gynnydd priodol yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yno. At ei gilydd, mae datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn dda. Yn ystod sesiynau chwarae gweithredol,

gallant ddewis gweithgareddau addas gan ganolbwyntio'n dda ar eu tasgau. Mae'r mwyafrif yn cydweithio gyda phlant eraill ac maent yn barod i rannu adnoddau.

Mae mwyafrif y plant yn gwranddo'n dda ac yn ymateb yn briodol i gwestiynau syml a chyfarwyddiadau. Mae'r mwyafrif yn dangos dealltwriaeth gynyddol o eiriau cyfarwydd ond ymatebion byr iawn a geir ar lafar. Mae'r plant yn mwynhau gwranddo ar storiâu ond ychydig iawn sy'n hoffi edrych ar lyfrau. Mae'r rhan fwyaf yn adnabod eu henwau mewn ffurf print. Defnyddiant offer marcio yn bwrpasol mewn ystod o gyfryngau, gan ddangos ymwybyddiaeth ddatblygol o rai o swyddogaethau ysgrifennu. Mae rhai unigolion yn medru ysgrifennu eu henwau yn gywir.

Gwna mwyafrif y plant ddefnydd cywir o'u medrau rhif sylfaenol mewn gweithgareddau bob dydd. Gallant gyfrif i bump gyda rhai unigolion yn cyfrif i ddeg. Maent yn deall rhai termau mathemategol, megis mawr/bach, llawn/gwag, mewn gweithgareddau ymarferol. Mae'r mwyafrif yn adnabod siapiau dau ddimensiwn sylfaenol, ond prin yw eu gwybodaeth o ddefnydd arian. Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) 'r plant yn datblygu'n briodol. Gwna rhai unigolion ddefnydd hyderus o'r llygoden i symud gwrthrychau ar y sgrin. Gyda chymorth, gallant roi chyfarwyddiadau priodol i deganau rhaglenadwy.

Gwna'r plant ddefnydd da o'u medrau corfforol a chreadigol mewn amrywiaeth o weithgareddau celf. Gwna'r mwyafrif ddefnydd addas o'u medrau meddwl a datrys problemau mewn gweithgareddau ymarferol megis adeiladu gyda blociau.

### **Lles: Da**

Mae gan y mwyafrif o'r plant ymagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Gweithiant yn ddiwyd ar dasg gan fwynhau'r ystod o weithgareddau sydd ar gael. Mae pob un ohonynt wedi ymgartrefu'n dda yn y lleoliad. Maent yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni'r oedolion ac yn barod i ofyn am gymorth a chefnogaeth.

Ar y cyfan, mae ymddygiad y mwyafrif o'r plant yn dda. Maent yn cyd-chwarae'n rhwydd ac yn gyfarwydd â rheolau aur y lleoliad. Mae'r plant hynaf yn gweithio'n lled annibynnol ac yn ymgymryd â phrofiadau newydd yn hyderus.

Mae gan y plant ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd ymarfer y corff a bwyta'n iach. Deallant bwysigrwydd golchi dwylo cyn bwyta byr brydau. Mae lefelau presenoldeb a phrydlondeb yn gyffredinol dda. Mae medrau ac ymwybyddiaeth gymdeithasol y plant yn datblygu'n effeithiol drwy'r gweithgareddau dyddiol a thrwy brofiadau megis ymweliadau â manau o ddiddordeb yn y gymuned.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>
--

<b>Digonol</b>
----------------

### **Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r lleoliad yn darparu ystod o weithgareddau diddorol ar draws llawer o'r meysydd dysgu. Seilir y gweithgareddau ar gyfres o themâu sy'n addas i ystod oed y plant. Gwneir defnydd cynyddol o'r fframweithiau cwricwlaidd newydd ar gyfer

cynllunio'r ddarpariaeth. At ei gilydd, nid yw'r cynllunio yn sicrhau cydbwysedd, parhad a dilyniant digonol yn y dysgu, gan gynnwys datblygiad y medrau, ym mhob maes dysgu.

Darperir anogaeth gyson i'r plant ddefnyddio medrau Cymraeg yn eu dysgu a'u chwarae. Er hyn, nid oes ffocws digonol ar gryfhau patrymau brawddegol sylfaenol yn rheolaidd. Mae'r ymarferwyr yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau Cymru drwy weithgareddau addas megis dathlu Dydd Gŵyl Dewi a choginio bwydydd Cymreig.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored yn briodol i annog plant i arbrofi â phrofiadau newydd. Mae profiadau priodol o dyfu a gofalu am blanhigion, a'r ymweliadau â fferm a chanolfan natur, yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd a phob peth byw. Prin yw'r cyfleoedd i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r byd ehangach, gan gynnwys pobl a diwylliannau eraill.

### **Addysgu: Digonol**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth ddatblygol o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Defnyddiant ystod briodol o ddulliau addysgu ac adnoddau addas i gynorthwyo'r dysgu. Maent yn cynnwys gweithgareddau a ddewisir gan y plant a thasgau ffocws sy'n cael eu harwain gan yr ymarferwyr. Er hyn, nid yw'r addysgu bob amser yn rhoi sylw digonol i nod y gweithgareddau i ddatblygu dealltwriaeth a medrau'r plant yn llawn.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda. Yn ddiweddar, cychwynnwyd ar drefn fwy strwythuredig i olrhain cynnydd a datblygiad plant ar draws y meysydd dysgu. Yn ei gyfnod cynnar mae'r datblygiad pwysig hwn. Caiff rhieni/gofalwyr eu hysbysu am gyflawniadau a lles eu plant yn anffurfiol a thrwy ffurflenni priodol a gwblheir wrth i'r plentyn drosglwyddo i'r ysgol gynradd. Yn ystod gweithgareddau, mae'r ymarferwyr yn rhyngweithio'n bwrpasol er mwyn sicrhau bod y plant yn derbyn y cymorth angenrheidiol.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Ceir trefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae trefniadau dyddiol, gan gynnwys gweithdrefnau derbyn a rhyddhau plant, yn hyrwyddo hyn yn dda. Mae'r gweithdrefnau sefydlu'n sicrhau bod plant yn ymgynefino'n gyflym yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn ofalgar a chynhaliol o'r holl blant.

Mae trefniadau addas ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae llinellau cyfathrebu clir gydag asiantaethau allweddol er mwyn mynd i'r afael ag anghenion penodol. Mae'r plant hyn yn gwneud cynnydd priodol.

Mae profiadau effeithiol yn hyrwyddo datblygiad personol y plant yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae profiadau, fel cynnig gweddi cyn ymadael, gwranddo ar storïau o'r Beibl, a dathlu gwyliau, megis y Nadolig a'r Pasg, yn cyfoethogi datblygiad ysbrydol y plant yn

effeithiol. Hyrwyddir eu hymwybyddiaeth o'r angen i helpu rhai llai ffodus yn briodol trwy gyfrannu at weithgareddau casglu arian at achosion da.

Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu. Y prif ymarferydd sydd â chyfrifoldeb am ddelio â materion amddiffyn plant ac am roi cyngor ac arweiniad i'r ymarferwyr eraill. Ymdrinnir yn briodol ag asesiadau risg o'r safle.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau a gyflwynir. Llwyddir i greu ethos cynnes a chroesawgar ar eu cyfer. Mae'r ymarferwyr yn ystyried ac yn gwerthfawrogi cefndiroedd amrywiol y plant ac yn gweithredu'n briodol yn unol â'r wybodaeth hon. Caiff yr holl blant eu trin â pharch.

Mae nifer digonol o ymarferwyr sy'n meddu ar gymwysterau a phrofiad perthnasol. Caiff y Cylch ei gynnal mewn ystafell sy'n rhan o adeilad y neuadd. Ar y cyfan, mae'r adeilad o ansawdd da ac yn cynnig cyfleusterau priodol. Caiff y cyfleusterau eu defnyddio'n effeithiol, gan gynnwys y lle chwarae allanol a'r ystod o offer chwarae mawr. Gwneir defnydd priodol o arddangosfeydd a samplau o waith y plant i greu amgylchedd deniadol. Ceir cyflenwad digonol o adnoddau sy'n cael ei ddefnyddio'n briodol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Gwneir defnydd effeithiol o adnoddau lleol, megis canolfan y frigâd dân a fferm, i ymestyn dysgu'r plant.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>
--

<b>Digonol</b>
----------------

### **Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r arweinydd yn llwyddo i greu ethos positif lle mae'r staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r ymarferwyr yn rhannu gwerthoedd a nodau cytûn ac yn ymrwymedig i ddatblygiad a lles plant. Mae eu perthynas adeiladol â'r plant a'u rhieni yn cyfrannu'n sylweddol at ymdeimlad o gymuned. Mae'r ymarferwyr yn ymwybodol o rai agweddau i'w gwella ond llai datblygedig yw eu gwybodaeth o weithdrefnau mwy ffurfiol ar gyfer rheoli a chynllunio i'r dyfodol.

Mae cyswllt agos gyda'r person cofrestredig ac mae'r lleoliad yn elwa o'r cymorth hwn. Mae aelodau'r pwyllgor rheoli yn barod iawn i gynorthwyo'r ymarferwyr. Ceir cydweithio da ac ymdrechion caled i godi arian er mwyn sicrhau gwelliannau megis i'r lle chwarae allanol. Er y trafodir yn anffurfiol, mae cyfarfodydd mwy ffurfiol y pwyllgor rheoli yn anghyson.

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gyffredinol o brif ddatblygiadau cenedlaethol a lleol. Er bod strwythurau a chanllawiau mewn lle, nid oes defnydd systematig ohonynt ar gyfer gwerthuso gwaith ac adnabod datblygiad proffesiynol pellach yr ymarferwyr.

### **Gwella ansawdd: Digonol**

Caiff agweddau ar y ddarpariaeth eu monitro'n briodol gan yr athrawon cyswllt. Cytunir ar agweddau addas i gael sylw a rhoddir strategaethau ar waith. Mae'r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd a gwelir gwelliannau mewn agweddau megis dulliau arsylwi a chofnodi datblygiad y plant. Cychwynnwyd hefyd ar drefn o nodi rhai sylwadau yn y ddogfen gynllunio am ymateb y plant i'r profiadau a ddarparwyd. Mae'r cynllun datblygu a gynhyrchwyd cyn yr arolygiad yn ddatblygiad pwysig. Nodir targedau priodol ar gyfer gwelliant.

Mae'r ymarferwyr yn cyd-drafod yn anffurfiol ac mae ganddynt wybodaeth gyffredinol o anghenion y lleoliad. Llai datblygedig yw eu gwybodaeth o weithdrefnau monitro ac arfarnu ansawdd y ddarpariaeth. Mae gan yr ymarferwyr brofiad helaeth o weithio yn y lleoliad ac yn ystod y cyfnod hwn maent wedi mynychu cyrsiau addas ar ystod o agweddau sydd yn ymwneud ag addysg a gofal plant. Mae ymweliadau'r prif ymarferydd â'r ysgol leol yn brofiad defnyddiol. At ei gilydd, mae'r sylw i hyfforddiant a datblygiad proffesiynol pellach yr ymarferwyr yn anghyson.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaeth dda rhwng yr ymarferwyr. Mae perthynas dda hefyd gyda'r rhieni. Cadarnhawyd hyn yn y sgysiau gyda'r rhieni yn ystod yr arolygiad ac yn eu hymatebion i'r holiaduron cyn-arolygiad. Mae ymarferwyr ar gael yn rheolaidd i gyfarfod gyda'r rhieni/gofalwyr ar ddechrau a diwedd pob sesiwn. Darperir gwybodaeth berthnasol i rieni newydd.

Sefydlwyd perthynas fuddiol gyda'r ysgol gynradd leol sy'n hyrwyddo trefniadau trosglwyddo. Mae'r berthynas dda gydag athrawesau cyswllt yr Awdurdod Lleol a swyddog datblygu Mudiad Ysgolion Meithrin yn arwain at welliannau yng ngwaith y lleoliad. Mae'r cysylltiadau adeiladol gyda'r gymuned yn cefnogi dysgu'r plant.

### **Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol. Mae cyflenwad digonol o adnoddau ac mae eu hargaeledd yn hybu annibyniaeth y plant. Mae'r buddsoddiad yn yr ardal chwarae allanol yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i'r plant ymgymryd ag ystod o weithgareddau. Gwneir defnydd effeithiol o adnoddau yn y gymuned, megis canolfan y frigâd dân a fferm, i ychwanegu at ddysgu'r plant.

Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth glir o'r gyllideb a chaiff penderfyniadau gwariant eu blaenoriaethu yn ôl anghenion y lleoliad. Gwneir defnydd rheolaidd o grantiau ac o fentrau codi arian er mwyn ychwanegu at yr adnoddau. Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth digonol am arian.



## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

#### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd naw o holiaduron rhieni ac ar y cyfan mynegwyd barnau cadarnhaol am y ddarpariaeth. Mae'r rhieni yn dweud bod eu plant yn gwneud cynnydd da a'u bod yn mwynhau mynychu'r lleoliad. Credant fod yr addysgu yn dda a bod y lleoliad yn cael ei redeg yn effeithiol. Dywedant fod y staff yn hawdd sgwrsio â nhw a bod eu plant yn ymgartrefu'n dda.

#### Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Mae'r plant yn hapus yn y lleoliad ac yn ymuno'n frwdfrydig yn y gweithgareddau. Mae rhai unigolion yn barod i sgwrsio'n syml am eu hoff weithgareddau.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol –

Dorothy Morris	Arolygydd Cofnodol
----------------	--------------------

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))